Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd

Adroddiad Blynyddol (Hydref 2019 – Hydref 2020)

Rhif Elusen Gofrestredig: 1102366

Nant-y-llyn, Cynllwyd Uchaf, Y Bala, Gwynedd.

Strwythur, Trefn Lywodraethol a Rheolaeth:

Yr Ymddiriedolwyr sy'n rheoli'r Gymdeithas:

(penodwyd ac ailbenodwyd mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Hydref 2019)

Gerallt W. Hughes – Cadeirydd; Beryl H. Griffiths – Ysgrifennydd Cyffredinol; Gwerfyl Price – Trefnydd Cyfarfodydd; Rheinallt G. Llwyd – Trysorydd; A. Lloyd Hughes – Golygydd; Megan Huggins – Ysgrifennydd Aelodaeth; Ffion M. Jones, Golygydd Cynorthwyol.

Cyllid: [Rheinallt G Llwyd]

Mae'r fantolen a'r nodiadau esboniadol yn egluro ein sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn 2019-20. Ac er fod diffyg gennym ar ddiwedd y flwyddyn honno mae gan y Gymdeithas asedau ariannol gweddol foddhaol wrth gefn.

Aelodaeth: Mawrth 2019 – Mawrth 2020: [Megan Huggins]

CRYNODEB O NIFEROEDD AELODAU						
Diwedd Blwyddyn	Cyffredinol	Oes	Unigol	Teulu	Cymdeithasau Hanes Lleol	Sefydliadau
Maw '19	**240**	6	159	47	3	25
Maw '20	**235**	5	153	48	3	26

Cyfarfodydd: [Gwerfyl Price]

Fel y gwyddoch, bu'n rhaid i'r Gymdeithas ganslo'r holl weithgareddau a digwyddiadau oedd wedi eu trefnu ar gyfer 2020 sef:

1. Darlith yn Gymraeg gan Yr Athro E. Wyn James ar Morgan Llwyd (1619-59): Bardd, oedd i'w chynnal yng Ngwesty'r Pengwern Ffestiniog, ar 25 Ebrill;
2. Ymweliad â Stad Rug, Corwen ac yna ag Amgueddfa Corwen ar 20 Mehefin;
3. Darlith yn Saesneg gan Keith O'Brien ar y testun Maes y Magnelau oedd i'w chynnal yn Nhrawsfynydd ar 5 Medi;
4. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a darlith yn Saesneg ar yr Early County Historians of Wales gan Quentin Deakin oedd i ddigwydd ar 10 Hydref.

Bu'n rhaid canslo'r mannau cyfarfod ar gyfer y digwyddiadau uchod, ac unrhyw luniaeth hefyd wrth gwrs. Mae Quentin Deakin yn fodlon rhoi'r ddarlith uchod i'r Gymdeithas ar yr un adeg y flwyddyn nesaf; ac mae nifer o'n siaradwyr am eleni wedi mynegi eu parodrwydd i'n hannerch y flwyddyn nesaf, ond wrth gwrs, ni allwn wneud unrhyw drefniadau pendant yn y sefyllfa sydd ohoni.

Cyn yr argyfwng presennol, roedd gennym rai digwyddiadau mewn golwg ar gyfer 2021, e.e. darlith gan Gwenan Gibbard ar Merêd a'i gysylltiadau â Meirionnydd. Rwyf wedi canslo'r digwyddiad hwnnw gan obeithio y bydd Gwenan yn gallu dod atom eto yn 2022.

Byddai'n dda gallu cael manylion cyswllt electronig gan ein haelodau, mae'n siŵr bod gan lawer o'n haelodau gyfeiriadau e-bost ond nad ydynt wedi eu hanfon atom. Er mwyn gallu trefnu digwyddiad fydd yn denu nifer dda i'w fynychu, mae lluniaeth yn aml yn rhan o'r apêl ond mae angen i'r darparwyr lluniaeth gael gwybod y niferoedd ymlaen llaw. Mae hyn hefyd yn siŵr o ddod yn fwyfwy pwysig yn y dyfodol wrth i gysylltu dros y we ddod yn bwysicach ac efallai'n fwy diogel.

***Y Cylchgrawn*:** [A. Lloyd Hughes]

Bydd *Cylchgrawn* eleni (Cyf. XVIII, Rhan III) yn cael ei ddosbarthu i'r aelodaeth yn ystod mis Tachwedd, gobeithio. Bydd y rhifyn hwn yn 112 tudalen o faint. Ceir 5 erthygl, 5 cyfraniad byr, Gweithrediadau'r Gymdeithas am 2019, ac adolygiadau. Dyma restr o gynnwys y rhifyn: Testun o Feirionnydd: Golwg arall ar 'The History of Owen Glyndwr' gan Gruffydd Aled Williams; A quest for Cymer in Edeirnion and its barons. Part 2: c.1700-c.1900 gan Jenny A. Lees; Brogyntyn, Glyn Cywarch and Merioneth gan Hilary A. Peters; Merioneth wool and the Atlantic slave trade gan Marian Gwyn; E. D. Evans (1919-2019): A tribute and bibliography gan A. Lloyd Hughes; a'r cyfraniadau byr canlynol: Fairbourne: A brief history (Brian J. Slyfield); Is-etholiad 1870 ar stad Glan-llyn, Llanuwchllyn (Beryl H. Griffiths); The Deeside Tramway, 1870s-1947: A Merioneth curiosity (Paul Lawton); James W. Roberts of Bala and the Labour Party National Conference of 1954 (J. Graham Jones); A note on the 'Merioneth Bee Boles Project', 2012-14 (John Townsend)

Dymuna'r Golygydd ddiolch i'r holl gyfranwyr am eu llafur a'u cefnogaeth i'r *Cylchgrawn*. Diolchir hefyd i'r cysodydd (Aeron Jones, Llanuwchllyn) a'r argraffwyr (WPG, Y Trallwng) am eu gwaith rhagorol a'u cydweithrediad.

Y Wefan:

Mae'r wefan yn dal yn weithredol gan greu diddordeb yng ngweithgareddau'r Gymdeithas ac yn fodd i werthu'r *Cylchgrawn* a'r mynegai iddo. Mae'r wefan i'w gweld yn: www.hanes-meirionnydd.cymru

Datganiad:

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol uchod.

Llofnodwyd ar eu rhan gan Gadeirydd y Gymdeithas,

_____

Gerallt W. Hughes

Dyddiad: _____

Merioneth Historical and Record Society

Annual Report (October 2019 – October 2020)

Registered Charity No: 1102366

Nant-y-llyn, Cynllwyd Uchaf, Y Bala, Gwynedd.

Structure, Governance and Management:

The Trustees who manage the Society:
(appointed and re-appointed at an AGM in October 2019)
Gerallt W. Hughes – Chair; Beryl H Griffiths – General Secretary; Gwerfyl Price – Meetings Organiser; Rheinallt G. Llwyd – Treasurer: A. Lloyd Hughes – Editor; Megan Huggins – Membership Secretary; Ffion M. Jones, Assistant Editor.

Finance: [Rheinallt Llwyd]

The accounts and accompanying notes explain our financial situation at the end of the 2019-20 financial year. And despite the fact that there was a loss at that time the total financial assets which the Society has is reasonably satisfactory.

Membership: March 2019 – March 2020: [Megan Huggins]

SUMMARY OF MEMBERSHIP NUMBERS						
Year End	Overall	Life	Individual	Family	Local History Societies	Institutions
Mar '19	240	6	159	47	3	25
Mar '20	**235**	5	153	48	3	26

Activities: [Gwerfyl Price]

The Society had to cancel all the activities and events arranged for 2020, ie:

1. Welsh Lecture by Professor E. Wyn James on Morgan Llwyd (1619-59): Bardd, that was to be held at the Pengwern Hotel, Ffestiniog, on 25 April;
2. Visit to Rug Estate, Corwen and then the Corwen Museum on 20 June;
3. Lecture in English by Keith O'Brien on the Trawsfynydd Ranges to be held at Trawsfynydd on 5 September;
4. Annual General Meeting and lecture in English on the Early County Historians of Wales by Quentin Deakin to be held on 10 October.

All the above venues had to cancelled along with the refreshments arranged. Quentin Deakin has agreed to present the above lecture to the Society at the same time next year; and a number of our lecturers have expressed their willingness to address us next year, but, of course, we cannot make any definite arrangements in the current situation.

Before the current crisis, we had some events in prospect for 2021, e.g. a lecture by Gwenan Gibbard on Merêd and his links to Merioneth. I've cancelled this event in the hope that Gwenan can address us in 2022.

It would be valuable to obtain members' e-mail addresses. In order to arrange events that will attract good numbers, refreshments are part of the appeal, but providers need numbers beforehand. This is likely to become even more important in future as connecting with members over the internet becomes more important and more secure.

***The Journal*:** [A. Lloyd Hughes]

This year's *Journal* (Vol. XVIII, Part III) will be despatched to the membership during November, hopefully. It will be 112 pages in length. It will comprise 5 articles, 5 short contributions, Proceedings of the Society for 2019, and reviews. The contents will be: Testun o Feirionnydd: Golwg arall ar 'The History of Owen Glyndwr' by Gruffydd Aled Williams; A quest for Cymer in Edeirnion and its barons. Part 2: c.1700-c.1900 by Jenny A. Lees; Brogyntyn, Glyn Cywarch and Merioneth by Hilary A. Peters; Merioneth wool and the Atlantic slave trade by Marian Gwyn; E. D. Evans (1919-2019): A tribute and bibliography by A. Lloyd Hughes; and the following short contributions: Fairbourne: A brief history (Brian J. Slyfield); Is-etholiad 1870 ar stad Glan-llyn, Llanuwchllyn (Beryl H. Griffiths); The Deeside Tramway, 1870s-1947: A Merioneth curiosity (Paul Lawton); James W. Roberts of Bala and the Labour Party National Conference of 1954 (J. Graham Jones); A note on the 'Merioneth Bee Boles Project', 2012-14 (John Townsend) The Editor thanks all the contributors for their labour and support to the *Journal*. Thanks are also expressed to the typesetter (Aeron Jones, Llanuwchllyn) and the printers (WPG, Welshpool) for their exemplary work and co-operation.

The Website:

The website is still active creating an interest in the Society's activities and has been valuable in promoting sales of the Journal and the index to it. The website can be seen at

www.merioneth-history.wales

Declaration:

The Trustees approve the above Annual Report.

Signed on their behalf by the Chairman of the Society,

_____

Gerallt W. Hughes

Date: _____